

A wyddoch chi beth ydi Gu?

YN Y dyddiau hyn, pan glywir cymaint o sôn am lygru dŵr y môr a'r afonydd gyda phob math o garthion, da o beth fyddai inni droi at weithiau S.R. (1800-85) ac at ei ddwy erthygl bwysig, y naill yn Saesneg a'r llall yn Gymraeg ar 'Lanhad Trefydd' neu 'Sewerage'. Cynhwysir yr erthyglau hyn yn y gyfrol drwchus *Gweithiau Samuel Roberts*, 1856, tt.57-26.

Mae'r dyddiad yn arwyddocaol. Dyma pryd yr oedd dinasoedd, trefi a phentrefi'r ddeunawfed ganrif yn ymledu'n gyflym oherwydd diwydiannaeth ac yn rhoi inni resi diddiwedd a blêr o dai gweithwyr, unffurf a digarthffosiaeth yn aml.

Gwrtaith dynol yw pwnc y ddwy erthygl a'r modd y gellir diwygio'r dull o'i drin. Y peth cyntaf yw cael enw mwy gwâr a didramgwydd arno na'r rhai arferol a'i gynnig ef yw 'the soft monosyllable GU'. Yn yr erthygl Saesneg, mae'n manylu ymhellach ar addaster yr enw hwn:

The little word Gu . . . might be of service in a variety of combinations such as Gu-closets, Gu-jars, Gu-depots, Gu-trains, Gu-merchants, London-Gu, Liverpool-Gu, Leeds-Gu . . .

Hyd yma, meddai'r awdur, nid ydys eto wedi sylweddoli gwerth y *Gu* a gynhyrchir gennym; yn y trefi, gwastrefeir y cyfan trwy ei olchi ymaith trwy bibellau a dŵr. Ond ystyriwn am funud:

Y mae (yr awdur) yn profi fod Gu teulu o ddeg o bobl, os cânt fyd da, yn werth dros ddeg punt yn y flwyddyn; y gallai Gu tref o bum mil, neu ddeng mil, neu gan mil o brestywlwyr, ond ei werthu am bris teg a'i ddefnyddio yn iawn, ddwyn elw mawr i'r dref hono, tuag at gynnal ei hysgolion, neu ryw ddyben cyffredinol arall. Barna fod Gu Llundain yn werth dros fil o filoedd o bunnau yn y flwyddyn, a bod Gu y Deyrnas Gyfunol yn werth dros ugain mil o filoedd.

Mantais aruthrol arall, meddai'r awdur, yw y byddai'r cyflenwad yn gyson ac na cheid prinder neu anwadalwch ysbeidiol ynglŷn ag ef. Mae'r erthygl Saesneg yn fwy pendant ar hyn na'r un Gymraeg. Dywedir:

. . . we may calculate on having a constant supply and deducing our calculations from the clearest laws of nature, we may arrange for a growing supply (sic)

Digon rhesymol, wrth gwrs; unwaith y gwelir fod cynhyrchu *Gu* yn talu, bydd pawb yn mynychu'r tai bach yn amlach: 'demand forces supply' chwedl 10

Ricardo; hwn'na ydio. Ac wrth gwrs, byddai streiciau yn amhosibl. 'Roedd economeg S.R. yn hollol ddiogel.

* * * *

OND SUT i drefnu fod *Gu* yn cyraedd y ffermydd? Yr ateb mewn gair, i S.R., oedd **Rheilffyrdd**. Dyma'r cyfnod, fel y soniais mewn man arall, pan oedd gwe o reilffyrdd yn prysur ymledu dros y wlad a'u hyrwyddwyr yn edrych i bob cyfeiriad sut i gael elw ohonynt.

Y cam cyntaf oedd llunio moddion i ddwyn y *Gu* o'r tai bach at safle'r gerbyddes, ac mae'n amlwg fod S.R. wedi rhoi ystyriaeth ofalus i hyn.

Rhydd amlinelliad lled fanwl o'r llestri a eilw yn *Gu-jars*; manylach yn yr erthygl Saesneg, ac o honno y dyfynnwn:

I am now supposing of a strong stone or glass jar, about 30 inches deep and about 24 by 30 in diameter; having a thick flat bottom, with two inch-holes opposite each other in the thickest part of the sides, close to the bottom, to be corked from the inside, that the corks may be pushed in at the time of cleaning the jar; the top of the jar to be flat, and the seat-opening of the usual character. To a belt of iron around the top of the jar, two strong rings one at each end, might be attached for removing it. The lid of the seat-opening to be of wood, hinged to the belt at the back . . . The seat of the jar might be coated with cloth.

Mae'n drueni nad yw'r erthygl yn cynnwys darlun neu ddiagram o'r llestr sydd gan S.R. mewn golwg, ond fe ddengys y dyfyniad uchod mor dechnegol-fanwl y bu S.R. yn cynllunio ei *Gu-jars*. Wrth gwrs, dylid cofio mai tai bach allan yng nwaelod gerddi oedd ganddo mewn golwg, nid rhai oddi mewn i'r tai preswyl eu hunain, fel sy' heddiw.

Ei gynllun o drafod y *Gu-jars* oedd hyn; trefnu bod modd gosod y *jar* yn ei le o dan y sedd o'r tu allan trwy wneud cafell neu agoriad pwrpasol ym mur y tŷ bach lle gellid gosod y *jar* gwag a chau arno gyda drws pren a'i gloi nes byddai angen ei newid am un arall o'r newydd. Gellid trefnu i hyn fod yn wasanaeth cyhoeddus, tebyg i fel y mae loriau lludw heddiw.

I ddsbarthu'r *Gu*, awgrymir mwy nag un cynllun. Y symlaf yw fod ffermyr yn dod â'u troliau i'r orsaf i dderbyn y *Gu*-lestri oddi ar wageni'r trên-*Gu*. Cynllun arall yw fod pyllau pwrpasol ymhob gorsaf lle gellir

Wedi colli ei ddysg a'i ddireidi, a'i ddi-ddordebau anarferol, efallai mae'r ffordd orau i gofio am D. Tecwyn Lloyd, Cadeirydd Cymdeithas Bob Owen a chyfaill pur, yw cyhoeddi yma y ddwy ysgrif olaf a ysgrifennodd ar gyfer *Y Casglwr*.

cymysgu pridd o'r ffermydd gyda *Gu* i wneud marl.

Yma eto, rhydd S.R. lawer o fanylion technegol ynghylch sut i wneud hyn, e.e. gosod rheiliau ar ymyl y pwll fel y gall y triciau wagio naill ai pridd neu *Gu* yn ôl y gofyn i'r pwll. Yn y modd hwn, gwêl S.R. 'y byddai cludiad *Gu* yn sicr o ateb yn dda i'r railffyrdd, trwy ddwyn ychwanegiad nid bychan at eu cyllidau'.

Nid amhosibl, ychwaith, fyddai i'r defnyddwyr ffurfio math o gorfforaethau — tebyg i'r mudiad cydweithredol — i brynu *Gu* yn gyfanwerthol ar delerau rhatach a threfnu cwsmeriaeth gyson a diogel gyda nifer o ffermyr y cylch.

* * * *

DYNA, yn fras, gynllun a gwledigaeth S.R. Mae'n parhau hyd heddiw yn weledigaeth nas mabwysiadwyd. Eithr onid oes yma astell go addawol i blaid wleidyddol sefyll arni mewn etholiadau gwledig? Awgrymwn

y gallai'r cyfuniad neu'r cadoediad presennol rhwng y Blaid Werdd a Phlaid Cymru fabwysiadu polisi fel hyn mewn is-etholiadau. Wedi'r cwbl, mae mwy o sens gan S.R. nag sy gan yr Arglwydd Nerco Sutch 'does bosib?'

Ac oni allai ein Bwrdd Croeso ddefnyddio'r syniadau hyn heddiw? Bellach, aeth oes aur y rheilffyrdd heibio ac ni ellir yn awr gludo *Gu*-lestri yn nhryciau B.R. i ardaloedd anghysbell y wlad. Ond fe ellir — ac fe neir — trefnu gwibdeithiau o ddinasoedd mawr Lloegr i weld mannau deniadol a gwledig gwyllt Walia.

Daeth twristiaeth yn bwysig ac yn rhan o'n hincwm cenedlaethol. Felly, oni ellir sianelu'r holl filoedd hyn o ymwelwyr tua'r meysydd a'r ffridoedd a'r weirgloddiau mwyaf anghenus ac ar derfyn eu hymweliad, rhoi disgownt iddynt ar gyfrif eu *guasanaeth*?

Mae'n siŵr y buasai S.R. yn cydsynio'n galonnog.

Cefn Gwlad yn Uwchaled

SYNNWN i ddim nad un o'r eitemau llyfryddol prinnaf o blith rhai o'r ganrif hon yw rhifynnau o'r cylchgrawn a enwir uchod, ac mae'n siŵr mai'r *Casglwr* yw'r lle priodol i sôn amdano. Dyma sut y bu.

Yn ystod misoedd gaef 1940-41, yr oedd tua dwsin i bymtheg o ddsbarthiadau WEA yn ardal eang Uwchaled; pump ohonynt gennyf i a phump arall gan hen ffrind imi, sef Islwyn Pritchard.

Un o Fethesda oedd Islwyn ac yn 1940 yr oedd newydd offren ei gyrsiau coleg yn Aberystwyth a'r Bala ac yn disgwyl galwad i ofalaeth fel gweinidog. Yn y cyfamser, daeth yn athro WEA yn Uwchaled a lletya yng Ngherrigydrudion.

'Roedd hi'n rhyfel bron ymhobman drwy'r byd a phob math o gyfyngiadau a rhwystrau ar gerdded; dognu petrol ac atal teithio ymhell, dognu bwyd, cuddio pob golau wedi bo nos, masgiau ar lampau ceir a dirymu eu peiriannau wrth eu parcio rhag digwydd i ryw Almaenwyr parasiwtaidd eu bachu! Pethau fel'n'a.

Eto, er gwaetha hyn i gyd, dyma un o'r adegau bywiocaf yn hanes pob gweithgarwch diwylliannol min-nos, ac yn

arbennig, dosbarthiadau nos. Rhaid cofio nad oedd teledu yn bod i gadw teuluoedd wrth ffon grât i rythu ar wegi; nid gan bawb yr oedd set radio ac yn siŵr, yr oedd mwy yn gallu darllen llyfrau a chylchgronau yn 1940 nag sydd heddiw.

* * * *

YN UWCHALED, bu Islwyn a minnau yn dra ffodus yn ein cyfnod. Yn y dosbarthiadau, yr oedd gwladwyr a oedd wedi dysgu meddwl a thrafod pwnc mewn Ysgol Sul, Cymanfa Holi a Chymanfa Bwnc, mewn pwyllgor a chyngor.

Rhwng 1940 a 1946, ymledodd gweithgarwch y dosbarthiadau; trefnu eisteddfod yng Ngherrigydrudion i'r holl gylch; cystadlaethau actio dramâu yn y gwanwyn a dechrau'r haf; cynnal ysgolion undydd yn yr haf i wrando ar wŷr fel R. T. Jenkins, Dr Alun Roberts a'u tebyg. Dyddiau a blynyddoedd llewyrchus yn wir.

Prif gofeb hyn i gyd heddiw yw'r pum rhifyn o *Cefn Gwlad* a gyhoeddwyd rhwng 1940 a 1946.

Islwyn oedd biau'r syniad i gychwyn. Buom yn meddwl am rywbeth i gydasio'r dosbarthiadau trwy gyfrwng